ofgem e-serve

Gwneud gwahaniaeth gwirioneddol
**i ddefnyddwyr ynni**

# Ofgem E-Serve

## yng Nghymru mewn rhifau

2015

# Ofgem E-Serve

Ofgem E-Serve yw cangen gyflawni Ofgem. Rydym yn arbenigwyr ym meysydd dylunio gweithredol a rhagoriaeth mewn cyflawni. Rydym yn gyfrifol am gyflwyno a gweinyddu cynlluniau amgylcheddol a rhaglenni cymdeithasol yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd (DECC).

Ein gwaith yw helpu'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd i wneud cynnydd sylweddol tuag at gyflawni ei thargedau datgarboneiddio. Mae Ofgem E-Serve yn gyfrifol am weinyddu pob cynllun tra bod yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd yn parhau i fod yn gyfrifol am ei pholisi. Rydym yn datblygu ac yn gweinyddu'r rhaglenni hyn ar sail nid-er-elw, am lai na 0.5% o gyfanswm eu gwerth.

# Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni (ECO)

Mae ECO yn rhaglen effeithlonrwydd ynni domestig a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU ym mis Ionawr 2013. Mae'n dilyn cynlluniau effeithlonrwydd ynni blaenorol y llywodraeth y mae Ofgem a'i ragflaenwyr wedi'u gweinyddu ers 1994.

Mae ECO yn gosod rhwymedigaeth gyfreithiol ar gyflenwyr ynni mwyaf Prydain i osod mesurau effeithlonrwydd ynni, megis inswleiddio'r atig a waliau, mewn cartrefi ym Mhrydain. Bob blwyddyn rydym yn pennu cyfran o'r targedau cyffredinol i gyflenwyr. Mae hyn yn seiliedig ar gyfran cyflenwr o'r farchnad cyflenwi nwy a thrydan. Mae cyflenwyr wedyn yn ennill credydau tuag at eu rhwymedigaethau ar gyfer mesurau effeithlonrwydd ynni cymwys y maent yn eu gosod mewn eiddo domestig.

Mae gan ECO y ddau nod o leihau allyriadau carbon deuocsid o'r sector domestig a mynd i'r afael â thlodi tanwydd. Mae'n gwneud hyn drwy dair rhwymedigaeth benodol, sef:

- Rhwymedigaeth Lleihau Allyriadau Carbon (CERO) - Mae hon yn targedu cartrefi y mae angen mesurau effeithlonrwydd ynni arnynt yn gyffredinol, mesurau inswleiddio'r atig a waliau yn bennaf, ond gall gynnwys mathau eraill o inswleiddio yn ogystal â chysylltiadau â systemau gwresogi ardal.
- Rhwymedigaeth Arbed Carbon yn y Gymuned (CSCO) - Mae hon yn targedu ardaloedd incwm isel a gwledig penodol gyda mesurau inswleiddio a gwresogi ardal
- Rhwymedigaeth Lleihau Costau Gwresogi'r Cartref (HHCRO) - Mae hon yn targedu lleihau costau gwresogi drwy osod mesurau gwresogi ac inswleiddio mewn cartrefi sector preifat sydd ar fuddiannau ar sail modd penodol.

# Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni (ECO)

Daeth cyfnod cyntaf ECO i ben ym mis Mawrth 2015 a lansiwyd ei ail gyfnod, sef ECO2, ym mis Ebrill 2015 a bydd yn para tan fis Mawrth 2017.

- Erbyn diwedd mis Medi 2015, gosodwyd 81,123 o fesurau yng Nghymru gan ddefnyddio cyllid ECO - mae hyn yn cyfateb i 5.1% o'r holl fesurau ECO a osodwyd.
- Gosodwyd tua 62 o fesurau ECO ar gyfer pob 1,000 o gartrefi yng Nghymru o gymharu â chyfartaledd o 59 o fesurau fesul 1,000 o gartrefi yn Lloegr a 76 o fesurau fesul 1,000 o gartrefi yn yr Alban.
- Mae cyfran y mesurau HHCRO a gyflawnwyd yng Nghymru yn fwy na'r disgwyl yn seiliedig ar nifer y cartrefi yng Nghymru. Mae'n debyg bod hyn i'w briodoli i'r ffaith bod cymorth ariannol yn cael ei ddarparu drwy ECO a chynllun Nyth Llywodraeth Cymru, sy'n targedu cartrefi tebyg.

Mae'r tabl canlynol yn dangos y mesurau ECO a gyflawnwyd yng Nghymru, yn ôl ardal weinyddol, hyd at ddiwedd mis Medi 2015

| Gwlad/ Ardal Awdurdod Lleol | CERO | CSCO | HHCRO | Cyfanswm mesurau ECO | % y mesurau ECO | Mesurau ECO fesul 1,000 o gartrefi |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Prydain Fawr | 686,151 | 420,425 | 485,246 | 1,591,822 | 100 | 60.7 |
| Lloegr | 572,584 | 352,330 | 402,493 | 1,327,407 | 83.4 | 59.0 |
| Yr Alban | 84,703 | 54,197 | 44,392 | 183,292 | 11.5 | 76.3 |
| Cymru | 28,864 | 13,898 | 38,361 | 81,123 | 5.1 | 61.5 |
| Ynys Môn | 199 | 187 | 431 | 817 | 0.1 | 26.5 |
| Gwynedd | 587 | 260 | 627 | 1,474 | 0.1 | 27.9 |
| Conwy | 1,423 | 314 | 1,699 | 3,436 | 0.2 | 66.5 |

| Gwlad/ Ardal Awdurdod Lleol | CERO | CSCO | HHCRO | Cyfanswm mesurau ECO | % y mesurau ECO | Mesurau ECO fesul 1,000 o gartrefi |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Sir Ddinbych | 1,348 | 538 | 1,511 | 3,397 | 0.2 | 82.8 |
| Sir y Fflint | 1,481 | 378 | 1,709 | 3,568 | 0.2 | 55.3 |
| Wrecsam | 1,064 | 585 | 970 | 2,619 | 0.2 | 45.1 |
| Powys | 811 | 65 | 453 | 1,329 | 0.1 | 22.6 |
| Ceredigion | 795 | 118 | 344 | 1,257 | 0.1 | 39.6 |
| Sir Benfro | 847 | 340 | 768 | 1,955 | 0.1 | 36.3 |
| Sir Gaerfyrddin | 1,569 | 798 | 2,096 | 4,463 | 0.3 | 56.1 |
| Abertawe | 1,393 | 800 | 3,076 | 5,269 | 0.3 | 50.3 |
| Castell-nedd Port Talbot | 1,632 | 964 | 2,445 | 5,041 | 0.3 | 83.2 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 1,113 | 1,211 | 2,479 | 4,803 | 0.3 | 80.9 |
| Bro Morgannwg | 1,631 | 292 | 1,379 | 3,302 | 0.2 | 60.9 |
| Caerdydd | 4,180 | 2,738 | 4,132 | 11,050 | 0.7 | 75.6 |
| Rhondda Cynon Taf | 1,373 | 1,370 | 5,641 | 8,384 | 0.5 | 82.8 |
| Merthyr Tudful | 471 | 540 | 1,082 | 2,093 | 0.1 | 85.8 |
| Caerffili | 2,246 | 976 | 3,012 | 6,234 | 0.4 | 83.1 |
| Blaenau Gwent | 347 | 371 | 1,302 | 2,020 | 0.1 | 66.0 |
| Torfaen | 1,303 | 242 | 974 | 2,519 | 0.2 | 64.8 |
| Sir Fynwy | 1,152 | 27 | 442 | 1,621 | 0.1 | 41.8 |
| Casnewydd | 1,899 | 784 | 1,789 | 4,472 | 0.3 | 72.3 |

# Gostyngiad Cartrefi Cynnes (WHD)

Mae'r Cynllun Gostyngiad Cartrefi Cynnes yn elfen bwysig o strategaeth Llywodraeth y DU ar gyfer mynd i'r afael â thlodi tanwydd. Mae'n rhoi ad-daliad blynyddol o £140 ar eu bil trydan i ddefnyddwyr incwm isel yn ogystal â darparu cymorth anuniongyrchol, megis cyngor ar ynni a chymorth i leihau dyledion ynni. Caiff y cynllun ei rannu'n dair elfen: y Grŵp Craidd, y Grŵp Ehangach a Mentrau'r Diwydiant. Mae DECC yn gweinyddu'r Grŵp Craidd ac yn gyfrifol am bolisi y cynllun tra bod Ofgem E-Serve yn gweinyddu'r elfennau sy'n weddill ac yn monitro cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau'r cynllun.

Er mai'r bwriad gwreiddiol oedd cynnal y cynllun am bedair blynedd, mae wedi'i ymestyn er mwyn parhau i gefnogi defnyddwyr incwm isel. Mae cyfranogiad cwmnïau ynni wedi cynyddu ers mis Ebrill 2011 ac mae'r 11 o gyflenwyr ynni mwyaf ym Mhrydain bellach yn cynnig cymorth WHD i ddefnyddwyr. Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda chyflenwyr a DECC er mwyn sicrhau y caiff y cynllun presennol ei gyflwyno'n effeithlon ac yn effeithiol tra'n cynnig mantais ein profiad a'n harbenigedd i'r llywodraeth hefyd wrth iddi ystyried opsiynau polisi yn y dyfodol i fynd i'r afael â thlodi tanwydd. Mae'r cynllun Gostyngiad Cartrefi Cynnes bellach wedi darparu dros £1 biliwn mewn cymorth gan gyflenwyr ymrwymedig i'r rheini sy'n wynebu'r perygl o dlodi tanwydd ers iddo ddechrau ym mis Ebrill 2011.

Un enghraifft o weithgaredd sy'n targedu Cymru yw NEA Cymru, a ariennir yn rhannol drwy Fentrau WHD y Diwydiant, sy'n darparu hyfforddiant dyled tanwydd a phrosiectau mentora ledled Cymru.

# Cynllun Tariff Cyflenwi Trydan (FIT)

Mae'r Cynllun Tariff Cyflenwi Trydan yn annog y defnydd o amrywiaeth o gyflenwyr trydan adnewyddadwy a thrydan carbon isel ar raddfa fach i dalu cynhyrchwyr micro, adnewyddadwy bach a micro Gwres a Phŵer Cyfunedig (CHP) am drydan a gynhyrchir a allforir i'r grid. Mae hefyd yn ofynnol i gyflenwyr wneud taliadau i gronfa lefelu, a gaiff ei hailddosbarthu i'r cwmnïau hynny sydd wedi gwneud mwy o daliadau i osodiadau achrededig nag y byddai'n ofynnol iddynt eu gwneud ar sail cyfraniad eu cyfran o'r farchnad.

Ar 31 Rhagfyr 2015, roedd Cymru yn cynrychioli 6.7% o gyfanswm y gosodiadau a gofrestrwyd ar Dariffau Cyflenwi Trydan (711,461). Mae hyn ers lansio'r cynllun yn 2010. Dangosir dadansoddiad o'r math o dechnoleg a chapasiti yng Nghymru isod:

| Technoleg | Cyfanswm y gosodiadau | Cyfanswm y Capasiti wedi'i Osod / kW |
|---|---|---|
| Treulio anerobig | 7 | 3,267 |
| Hydro | 153 | 7,514 |
| Ffotofoltäig | 46,630 | 211,678 |
| Gwynt | 514 | 45,088 |
| **Cyfanswm** | **47,304** | **267,547** |

# Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy (RO)

Y Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy yw un o'r prif systemau ar gyfer cefnogi'r defnydd o orsafoedd cynhyrchu trydan adnewyddadwy mawr yn y DU. Mae'n gosod rhwymedigaeth ar gyflenwyr trydan trwyddedig i gael peth o'u cyflenwad o ffynonellau ynni adnewyddadwy, ac mae'r gyfran hon yn cynyddu bob blwyddyn. Yng Nghymru y math mwyaf cyffredin o dechnoleg yw gwynt ar y tir lle roedd 44 o orsafoedd achrededig ar 31 Mawrth 2015.

Er mai dim ond tair gorsaf ynni gwynt ar y môr sy'n achrededig o dan y cynllun, maent yn cyfrif am 720MW o gapasiti adnewyddadwy ac yn cynnwys Gwynt y Môr, sef un o'r mwyaf o'r math hwn o orsaf yn y byd. Yn 2014/15 cyflwynwyd 3.8 miliwn o Dystysgrifau Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy (ROC) i weithredwyr gorsafoedd yng Nghymru, ac roedd y tystysgrifau hyn yn werth tua £168 miliwn.

| | **Nifer y gosodiadau** | | | **Capasiti** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Technoleg | Nifer y gorsafoedd yn y DU (ac eithrio microgynhyrchwyr) | Nifer y gorsa-foedd yng Nghymru | % gorsafoedd Cymru yn y DU | Capasiti y DU (MW) | Capasiti Cymru (MW) | % capasiti y DU a gynhyrchir yng Nghymru |
| Hydro | 253 | 31 | 12.3% | 720 | 77.2 | 10.7% |
| Solar PV | 485 | 34 | 7.0% | 3,817 | 285.8 | 7.5% |
| Gwynt ar y tir | 702 | 44 | 6.3% | 7,935 | 527.3 | 6.6% |
| Gwynt ar y môr | 30 | 3 | 10.0% | 4,976 | 720.2 | 14.5% |
| Nwy tirlenwi | 450 | 18 | 4.0% | 929 | 31.2 | 3.4% |
| Nwy carthion | 158 | 16 | 10.1% | 165 | 12.2 | 7.4% |
| **Cyfanswm** | **2,078** | **146** | **7.0%** | **18,541** | **1,654** | **8.9%** |

**Nodiadau:**

- Mae hefyd wyth gorsaf gynhyrchu tanwydd ffosil yng Nghymru. Bydd manylion capasiti y rhain yn ymddangos yn ein hadroddiad blynyddol ar y Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy, a gaiff ei gyhoeddi cyn 1 Ebrill 2016.
- Nid oes unrhyw safleoedd ynni llanw neu ynni'r tonnau yng Nghymru.
- Yn seiliedig ar ddata achredu'r Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy ar 15 Rhagfyr 2015.

# Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy

Mae'r Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy yn torri tir newydd ledled y byd. Mae'n darparu cymhellion ariannol i gefnogi'r newid o systemau gwresogi olew a nwy i systemau cynaliadwy fel biodanwyddau, paneli thermol solar, pympiau gwres a systemau gwres a phŵer cyfunedig adnewyddadwy. Y cynllun yw ffordd allweddol llywodraeth y DU i gynyddu'r defnydd o wres adnewyddadwy er mwyn lleihau allyriadau carbon a helpu i gyflawni targedau adnewyddadwy yr UE.

Mae gan y Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy ddau gynllun - Annomestig a Domestig. Mae ganddynt dariffau, amodau ymuno, rheolau a phrosesau gwneud cais ar wahân. Rydym yn gweinyddu'r ddau.

Yn gyffredinol, os yw'r system wresogi adnewyddadwy ar safle masnachol, cyhoeddus neu ddiwydiannol, gallai fod yn gymwys o dan y Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Annomestig. Yr hyn sy'n allweddol i ymuno â'r cynllun Domestig yw bod y system wresogi adnewyddadwy ond yn gwresogi un eiddo sy'n gallu cael Tystysgrif Perfformiad Ynni (EPC) domestig.

# Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Annomestig (RHI)

Dechreuodd y cynllun Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Annomestig ym mis Tachwedd 2011.

Ceisiadau yng Nghymru

- Ceisiadau a Gafwyd - 1,529 (10% o gyfanswm ceisiadau Prydain Fawr)
- Ceisiadau Achrededig a chynhyrchwyr biomethan cofrestredig - 1,314 (10% o gyfanswm ceisiadau Prydain Fawr)

Yn y flwyddyn ariannol 14/15, cawsom gyfanswm o 987 o geisiadau yng Nghymru. Mae hyn yn dangos twf sylweddol o gymharu â blynyddoedd blaenorol:

| 2015/2016 (hyd at 30 Tachwedd 2015) | 2014/2015 | 2013/2014 | 2012/2013 | 2011/2012 (ers mis Tachwedd 2011) |
|---|---|---|---|---|
| **160** | **987** | **256** | **107** | **19** |

Cyfanswm y capasiti wedi'i osod yw 187,905 (188MW). **Mae hyn yn cyfateb i 11% o holl geisiadau Prydain Fawr.**

Dadansoddiad o dechnoleg a chapasiti:

| Technoleg | Nifer y Ceisiadau | Capasiti wedi'i Osod (kW) |
|---|---|---|
| Boeler Biomas Solet | 1,262 | 186,737 |
| Pympiau Gwres o'r Ddaear (GSHP) | 27 | 422 |
| Systemau Thermol Solar | 18 | 165 |
| Bionwy | 1 | 178 |
| Pwmp Gwres o'r Awyr (ASHP) | 3 | 37 |
| Pwmp Gwres o'r Dŵr (WSHP) | 2 | 366 |
| Biomethan | 1 | 0 |
| **Cyfanswm Hyd Yma** | **1,314** | **187,905** |

# Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Domestig (RHI)

Dechreuodd y cynllun Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Domestig ym mis Ebrill 2014 ac mae'n cwmpasu Cymru, Lloegr, a'r Alban. Mae wedi'i dargedu at gartrefi nad ydynt ar y grid nwy, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt. Mae gan y rheini sydd heb brif gyflenwad nwy y potensial mwyaf i arbed ar filiau tanwydd a lleihau allyriadau carbon.

Gall unrhyw un sy'n bodloni'r meini prawf ymuno wneud cais, gan gynnwys pobl sy'n berchen ar eu cartrefi, landlordiaid cymdeithasol a phreifat a hunanadeiladwyr.

Telir cyfranogwyr bob chwarter am saith mlynedd. Ar gyfer y rhan fwyaf, mae taliadau yn seiliedig ar amcangyfrif o ddefnydd gwres mwyaf diweddar yr eiddo. Mae angen i leiafrif o gyfranogwyr osod mesurydd a chyflwyno darlleniadau rheolaidd er mwyn cael eu talu.

Y systemau gwresogi cymwys yw: boeleri biomas a stofiau peledi biomas, pympiau gwres ffynhonnell aer ac o'r ddaear a phaneli solar thermol.

- Ar gyfartaledd, mae gan Gymru un achrediad fesul 1,000 o bobl, sy'n sylweddol uwch na chyfartaledd Prydain Fawr, sef 0.7 fesul 1,000 o bobl.
- Powys sydd â'r nifer fwyaf o achrediadau Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Domestig y pen, gyda 4.2 achrediad fesul 1,000 o bobl. Mae gan Geredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Fynwy nifer uchel o achrediadau y pen hefyd, gyda 2.9, 2.6 a 2.1 fesul 1,000 o bobl yn y drefn honno.
- O'r 14 o ardaloedd daearyddol ym Mhrydain Fawr, y mae'r Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Domestig yn adrodd arnynt, mae gan Gymru y bedwaredd nifer fwyaf o achrediadau biomas a'r bedwaredd nifer fwyaf o achrediadau thermol solar.
- Yn gyffredinol, mae 5.2% o holl achrediadau Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Domestig Prydain Fawr wedi'u lleoli yng Nghymru. Wedi'u dadansoddi yn ôl technoleg, mae Cymru yn darparu 3.6% o holl achrediadau pympiau gwres o'r awyr, 6.8% o holl achrediadau biomas, 5.9% o achrediadau pympiau gwres o'r ddaear a 6.7% o achrediadau thermol solar.

# Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Domestig (RHI)

## Mae'r tabl canlynol yn dangos y defnydd o systemau gwresogi cymwys ledled Cymru

| Sir | Pwmp Gwres o'r Awyr | Biomas | Pwmp Gwres o'r Ddaear | Systemau Thermol Solar | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | | 3 | | | 3 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 5 | 10 | 5 | 6 | 26 |
| Caerffili | 10 | 14 | 4 | 5 | 33 |
| Caerdydd | 10 | 7 | 3 | 10 | 30 |
| Sir Gaerfyrddin | 116 | 167 | 108 | 94 | 485 |
| Ceredigion | 68 | 68 | 44 | 43 | 223 |
| Conwy | 27 | 21 | 16 | 14 | 78 |
| Sir Ddinbych | 58 | 60 | 30 | 34 | 182 |
| Sir y Fflint | 50 | 63 | 11 | 32 | 156 |
| Gwynedd | 81 | 68 | 37 | 28 | 214 |
| Ynys Môn | 56 | 25 | 34 | 16 | 131 |
| Merthyr Tudful | 5 | 3 | 2 | 3 | 13 |
| Sir Fynwy | 61 | 54 | 48 | 30 | 193 |
| Castell-nedd Port Talbot | 16 | 6 | 2 | 4 | 28 |
| Casnewydd | 9 | 13 | 9 | 11 | 42 |
| Sir Benfro | 61 | 84 | 34 | 58 | 237 |

| Sir | Pwmp Gwres o'r Awyr | Biomas | Pwmp Gwres o'r Ddaear | Systemau Thermol Solar | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Powys | 147 | 183 | 100 | 123 | 553 |
| Rhondda Cynon Taf | 14 | 14 | 3 | 5 | 36 |
| Abertawe | 22 | 13 | 22 | 19 | 76 |
| Bro Morgannwg | 16 | 16 | 12 | 17 | 61 |
| Torfaen | 2 | 3 | | 1 | 6 |
| Wrecsam | 75 | 40 | 11 | 64 | 190 |
| **Cyfanswm** | **909** | **935** | **535** | **617** | **2996** |

# Ad-daliad Trydan y Llywodraeth (GER)

Sefydlwyd Ad-daliad Trydan y Llywodraeth (GER) yn dilyn datganiad yr hydref gan Ganghellor y Trysorlys yn 2013, lle amlinellodd y llywodraeth ar y pryd gynlluniau er mwyn helpu i leihau effaith costau polisïau amgylcheddol a chymdeithasol ar filiau ynni. Mae'n rhan o becyn ehangach o fesurau y bwriedir iddynt leihau biliau ynni o tua £50 y flwyddyn ar gyfartaledd.

**Mae Ad-daliad Trydan y Llywodraeth yn gofyn i ddeiliaid trwydded cyflenwi trydan roi ad-daliad blynyddol o £12 i bob cwsmer domestig yn 2014/15 a 2015/16.** Telir cwsmeriaid gan gyflenwyr drwy eu dull arferol o dalu ac mae'n rhaid i gyflenwyr roi'r ad-daliad erbyn 28 Chwefror bob blwyddyn. Rydym yn cadarnhau bod cyflenwyr wedi gwneud y taliadau hyn ac wedyn mae'r llywodraeth yn eu had-dalu am y gostyngiadau a ddarparwyd.

**Llundain**
9 Millbank,
London,
SW1P 3GE
Ffôn: 020 7901 7000

**Glasgow**
Cornerstone,
107 West Regent Street,
Glasgow, G2 2BA
Ffôn: 0141 331 2678

**Caerdydd**
1 Pentir Caspian,
Ffordd Caspian
Caerdydd
CF10 4DQ
Ffôn: 029 2044 4042

**www.ofgem.gov.uk/eserve**